

## **Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)**

Regis Healthcare Limited

Ysbyty Hillview

Wardiau Brenin ac Ebbw

Dyddiad arolygu:

2 – 4 Rhagfyr 2019

Dyddiad cyhoeddi: 5 Mawrth 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	7
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	9
	Ansawdd profiad y claf .....	10
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	24
4.	Beth nesaf? .....	28
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol .....	29
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	30
	Atodiad B – Cynllun gwella .....	31

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o wasanaeth iechyd meddwl annibynnol Ysbyty Hillview ar noson 2 Rhagfyr 2019 a'r diwrnodau canlynol, sef 3 a 4 Rhagfyr. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Brenin - Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
- Ward Ebbw - Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd o AGIC, tri adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un ohonynt oedd yr adolygwr enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, adolygwyd dogfennaeth ar gyfer cleifion a gadwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000, gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Mae AGIC hefyd yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983), y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth er mwyn llywio ei raglen arolygu ac mae amlder yr arolygiadau iechyd meddwl yn Ysbyty Hillview yn arwyddocaol, gan adlewyrchu lefel gynyddol a pharhaus ein pryder. Hwn oedd nawfed ymweliad AGIC ers mis Mawrth 2018. Nid yw AGIC yn cynnal cynifer o arolygiadau â hyn o fewn cyfnod mor fyr. Ers mis Ebrill 2018, mae Ysbyty Hillview Regis Healthcare Limited wedi cael ei ddynodi'n wasanaeth sy'n peri pryder, yn unol â'n polisi gorfodi. Diben yr arolygiad hwn oedd asesu a wnaed gwelliannau digonol er mwyn mynd i'r afael â'r problemau rydym wedi parhau i ddod o hyd iddynt yn yr ysbyty hwn ac, wrth aros am ein canfyddiadau, ystyried a ddylai'r ysbyty barhau i gael ei ddynodi'n wasanaeth sy'n peri pryder.

Mae'r materion penodol a nodwyd gennym yn gyson yn cynnwys y canlynol:

- Rheoli risg
- Prosesau cyflogi
- Hyfforddi staff
- Arwain, rheoli a llywodraethu
- Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom dîm ymroddedig o staff a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom fod y staff yn dangos parch wrth ryngweithio â'r cleifion drwy gydol yr arolygiad.

Roedd y cleifion yn gallu cael gafael ar wasanaethau addysg, seicoleg, therapi galwedigaethol a chymunedol.

Mae angen gwella'r broses o reoli meddyginiaethau a chadw cofnodion cywir o rota'r staff.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn dangos parch wrth ryngweithio ac ymgysylltu â'r cleifion
- Gwaith tîm da a staff sy'n llawn cymhelliant
- Darparwyd amrywiaeth dda o therapïau a gweithgareddau i'r cleifion
- Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth wedi'u cwblhau yn unol â Mesur y Gymraeg.
- Gwnaed nifer o newidiadau yn dilyn yr arolygiadau blaenorol
- Monitro'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rheoli ymddygiadau sy'n cyfyngu ar fwyd a/neu hylif
- Rheoli meddyginiaethau mewn ffordd ddiogel ac effeithiol
- Rheoli'r cofnodion o rota'r staff
- Sefydlogrwydd gweithlu'r ysbyty
- Darparu gwybodaeth ar ward Brenin i'r cleifion.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn yr oedd angen gweithredu arnynt ar unwaith. Fodd bynnag, gwnaethom nodi achosion o dorri rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn mewn perthynas â'r canlynol

- Rheoli meddyginiaeth
- Cofnodi hylifau
- Rheoli rota'r staff

Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at roi hysbysiad diffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrllon er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, oherwydd os nad yw'n gwneud hynny, gallai arwain at achos o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau.

Ar y cyfan, roedd hwn yn arolygiad cadarnhaol a gwelsom fod gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud ym mhob rhan o'r ysbyty i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd mewn arolygiadau blaenorol. O ystyried y canfyddiadau hyn, mae AGIC wedi penderfynu nad yw Ysbyty Hillview yn Wasanaeth sy'n Peri Pryder mwyach.



## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Cefndir y gwasanaeth

Mae Regis Healthcare Limited wedi'i gofrestru i ddarparu ysbyty annibynnol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sy'n gleifion Iechyd Meddwl yn Ysbyty Hillview, Glynabwy, Gwent NP23 5YA.

Mae gan y gwasanaeth ddwy ward, sef Ward Ebbw, sydd â chwe gwely, a Ward Brenin, sydd â 12 o welyau. Mae'r ddwy ward yn cynnig gofal i bobl ifanc dan 18 oed.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 15 Ionawr 2014.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys yr unigolyn cyfrifol, nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cynnwys seiciatryddion, seicolegwyr, seicolegwyr cynorthwyol, therapyddion galwedigaethol, cynorthwywyr technegol, athrawon, cynorthwywyr addysgu a chydlynwyr gweithgareddau. Roedd tîm gweinyddol mawr hefyd a oedd yn helpu'r timau clinigol i redeg yr ysbyty o ddydd i ddydd.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom fod y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, a gwelsom y staff yn trin y cleifion ag urddas a pharch.

Gwelsom y staff yn ymdrin â phobl yr oedd angen cymorth un-i-un arnynt mewn ffordd dawel a sicr, gan ddefnyddio technegau priodol ar gyfer ymgysylltu lle roedd angen gwneud hynny.

Roedd amrywiaeth o weithgareddau a therapiâu addas ar gael ym mhob rhan o'r ysbyty, ac yn y gymuned, er mwyn helpu i adsefydlu'r cleifion.

## Hybu, diogelu a gwella iechyd

Ar ward Ebbw, roedd amrywiaeth o daflenni gwybodaeth perthnasol i gleifion, teuluoedd ac ymwelwyr eraill am iechyd meddyliol a chorfforol a llesiant. Fodd bynnag, nid oedd llawer o wybodaeth ar gael i gleifion, teuluoedd ac ymwelwyr eraill ar ward Brenin.

Roedd ysgol yn yr ysbyty, o'r enw Tŷ Seren, a oedd yn rhoi mewnbwn addysgol i'r cleifion wrth iddynt dderbyn gofal yn yr ysbyty. Roedd gan yr ysgol staff addysgu a chymorth penodol i hwyluso gwersi.

Pan nad oedd y cleifion yn mynychu'r ysgol, arsylwyd ar y cleifion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau therapiwtig a hamdden.

Roedd amrywiaeth o adnoddau ar gael ym mhob rhan o'r ysbyty, gan gynnwys celf a chrefftau, llyfrau a gemau bwrdd. Cadarnhaodd y staff a'r cleifion fod gweithgareddau grŵp a gweithgareddau unigol rheolaidd yn digwydd yn y gymuned. Mae mewnbwn y cynorthwywyr therapi galwedigaethol a'r uwchweithwyr cymorth yn helpu i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau, yn yr ysbyty a'r gymuned. Roedd y rhain yn cynnwys ymweliadau â'r sinema ac i farchogaeth, yn ogystal â mynd i'r ganolfan hamdden, siopau a bwytai lleol.

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom gleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn ymgysylltu â'r gymuned.

Uned dim smygu yw Ysbyty Hillview ac ni chaniateir smygu unrhyw le yn yr adeilad nac ar dir yr ysbyty. Mae gan y ddwy ward ardd y gallai'r bobl ifanc ei defnyddio ac roedd ardal hefyd lle gallai anifeiliaid anwes teulu ddod i ymweld â'r cleifion.

Roedd cleifion yn gallu mynd at eu meddyg teulu, deintydd a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn y gymuned yn ôl yr angen. Roedd cofnodion y cleifion hefyd yn dangos tystiolaeth bod llesiant corfforol yn cael ei fonitro'n fanwl ac yn briodol. Roedd y staff yn gallu defnyddio cerbydau ysbyty dynodedig a oedd yn golygu y gallent fynd â'r cleifion i weithgareddau ac apwyntiadau meddygol yn y gymuned.

### **Urddas a pharch**

Nodwyd bod pob cyflogai, staff y wardiau, yr uwch-reolwyr a'r staff gweinyddol yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom ymgysylltu a rhyngweithio proffesiynol cadarnhaol rhwng y cleifion a'r staff gyda'r claf wrth wraidd pob rhan o'r broses. Roedd yn gadarnhaol clywed a gweld y staff yn siarad am y cleifion mewn ffordd broffesiynol a pharchus.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo'n angerddol am eu rolau ac yn frwdfrydig ynghylch y ffordd roeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt. Gwelsom y staff yn cymryd amser i siarad â'r cleifion a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion neu bryderon roedd y cleifion yn eu codi. Roedd hyn yn dangos bod gan y staff agweddau ymatebol a gofalgar tuag at y cleifion.

Roedd yr ystafelloedd gwely ar Ward Ebbw yn cynnig digon o le storio ac roedd y cleifion yn gallu personoli eu hystafell gyda lluniau a phosteri. Roedd y cleifion hefyd yn gallu cloi eu hystafelloedd gwely, y gallai'r staff eu datgloi petai angen. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn parchu eu preifatrwydd a'u hurddas ar y cyfan. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom lawer o enghreifftiau o'r staff yn curio ar ddrysau'r cleifion cyn mynd i mewn i'r ystafelloedd gwely.

Nid oedd y cleifion yn gallu cloi eu hystafell wely ar Ward Brenin, ond roeddent yn gallu personoli eu hystafell. Mae'r cyfyngiad hwn yn briodol.

Yn swyddfa'r nyrsys ar Ward Ebbw, roedd bwrdd cipolwg ar statws cleifion<sup>1</sup> a oedd yn dangos gwybodaeth gyfrinachol am bob claf a oedd yn cael gofal ar y ward. Roedd y bleinds yn yr ardal hon wedi'u cau, gan sicrhau nad oedd modd gweld gwybodaeth gyfrinachol o ardaloedd cleifion y ward. Roedd y bwrdd cleifion wedi'i leoli yn swyddfa'r staff ac roedd wedi'i orchuddio'n addas. Roedd hyn yn golygu bod y tîm o staff yn gwneud pob ymdrech i amddiffyn cyfrinachedd y cleifion.

### Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd gan yr ysbyty ddatganiad ysgrifenedig o ddiben a chanllaw gwybodaeth i gleifion a oedd ar gael i'r cleifion a'u perthnasau/gofalwyr. Ar ôl edrych ar y canllaw gwybodaeth i gleifion, gwelsom fod peth gwybodaeth yn anghywir ac yn cyfeirio at gleifion gwrywaidd. Mae angen diweddarau'r wybodaeth sydd yn y canllaw croeso i Ysbyty Hillview er mwyn adlewyrchu'r ffaith mai ysbyty i fenywod yn unig ydyw. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r canllaw gwybodaeth i gleifion presennol er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn gywir.

Nodwyd nad oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos ar Ward Brenin er mwyn helpu cleifion a'u teuluoedd i ddeall y gofal a roddir iddynt, nac ychwaith fanylion am sefydliadau a all roi help a chefnogaeth i gleifion a theuluoedd y mae cyflyrau iechyd meddwl yn effeithio arnynt. Hefyd, nid oedd llawer o wybodaeth i'w gweld am hybu iechyd na sut i wneud cwyn.

Nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael ar Ward Brenin am rôl AGIC na sut y gall cleifion gysylltu â'r sefydliad. Mae hyn yn ofynnol o dan God Ymarfer Cymru ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983<sup>2</sup>.

---

<sup>1</sup> Bwrdd sy'n galluogi'r staff i gyfeirio'n gyflym at wybodaeth hanfodol am y cleifion unigol sy'n derbyn gofal ar y ward.

<sup>2</sup> Mae Cod Ymarfer Cymru ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (Diwygiwyd 2016) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol am eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Yn ogystal â rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol, mae'r Cod Ymarfer hefyd yn rhoi gwybodaeth i gleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr. <https://gov.wales/topics/health/nhswales/mental-health-services/law/code-of-practice/?lang=cy>

## Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r canllaw croeso i Hillview sy'n cynnwys gwybodaeth i gleifion er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn gywir.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos ar y ddwy ward sy'n cynnwys gwybodaeth statudol, gwybodaeth am y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r gwasanaethau eirioli a ddarperir, sut i godi cwyn, a gwybodaeth am Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

## Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â'r cleifion. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas i'r claf unigol. Lle roedd y cleifion yn cael anhawster o hyd i ddeall rhywbeth, neu lle roedd yr hyn roedd claf yn ceisio ei gyfleu yn cael ei gamddeall, byddai'r staff yn ceisio gofyn yn amyneddgar am eglurhad o'r hyn yr oedd wedi'i ddweud.

Buom yn bresennol mewn nifer o gyfarfodydd clinigol, ac roedd yn amlwg bod trafodaethau'n canolbwyntio ar yr hyn a oedd orau i'r claf unigol. Pan oedd y claf yn bresennol yn y cyfarfod, roedd pob aelod o'r staff yn ymgysylltu ag ef mewn ffordd barchus ac yn gwrandao ar ei safbwyntiau, gan roi rhesymau clir iddo dros y penderfyniadau a wnaed.

Roedd yn galonogol gweld a chlywed trafodaethau a dadleuon proffesiynol yn cael eu cynnal yn ystod y cyfarfodydd y buom yn bresennol ynddynt. Roedd hyn yn dangos bod pob aelod o'r staff yn cyfrannu at y broses cudd-wybodaeth a gwybodaeth, a bod barn pob aelod o'r staff yn cael ei hystyried a'i thrafod wrth wneud penderfyniad pwysig ar lefel y risg i glaf a'i anghenion.

## Cynllunio a darparu gofal

O safbwynt cynllunio gofal ac ymarfer yn y wardiau a'r ysbyty, roedd pwyslais clir ar adsefydlu gyda gofal wedi'i addasu i gleifion unigol a'i gefnogi gan yr arferion lleiaf cyfyngol.

Gwelsom fod tystiolaeth glir o waith amlddisgyblaethol yng nghynlluniau gofal y cleifion a oedd yn helpu i gefnogi'r ysbyty i allu rhoi gofal cynhwysfawr i'r cleifion.

Roedd y cynlluniau gofal wedi'u strwythuro'n dda ac yn gynhwysfawr ac yn fanwl. Roedd adroddiadau cynnydd hefyd wedi'u dyddio a'u llofnodi gan y cleifion.

Gwelsom hefyd fod cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn a bod cymorth yn cael ei roi mewn ffordd strwythuredig i alluogi'r cleifion i gyflawni nodau unigol. Roedd yn gadarnhaol ac yn galonogol gweld y gwelliannau sylweddol a wnaed o ran cynlluniau gofal unigol a manwl ers ein harolygiad diwethaf. Roedd y datblygiadau hyn yn dangos bod y darparwr cofrestredig yn ymdrechu i wneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol yn yr ysbyty.

### **Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Roedd ymarfer y staff, a oedd yn gyson â pholisïau a systemau sefydledig yr ysbyty, yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau'r cleifion yn cael eu cynnal. Gwelsom fod y cleifion yn gallu defnyddio'r gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol a'r gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol, yn ôl y gofyn.

Roedd y papurau cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi cael eu cwblhau'n gywir er mwyn cadw cleifion yn yr ysbyty ac roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn deall y rheswm dros eu cadw ac roedd ganddynt ryw faint o ddealltwriaeth o'u hawliau yn ystod eu cyfnod yn yr ysbyty.

### **Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion**

Roedd cyfarfodydd rheolaidd â chleifion yn cael eu cynnal er mwyn galluogi'r cleifion i roi adborth ar y gofal a ddarperir yn yr ysbyty. Yn ystod y cyfarfodydd y buom yn bresennol ynddynt, gwelsom y staff yn cymryd amser i wrando ar bryderon y cleifion a gwelsom y staff yn dangos sensitifrwydd a pharch wrth fynd i'r afael â phryderon.

Roedd polisi cwynion a gweithdrefn gwyno ar waith. Roedd y polisi yn cynnig strwythur ar gyfer ymdrin â phob cwyn yn yr ysbyty. Roedd yn amlwg bod person annibynnol wedi'i bennu i ymchwilio i'r gŵyn a bod camau yn cael eu cymryd yn unol â pholisi cwynion y darparwr cofrestredig er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn briodol.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risg, iechyd a diogelwch a rheoli heintiau. Roedd hyn yn galluogi'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd dogfennaeth gyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth.

Fodd bynnag, roedd angen gwella'r broses o reoli meddyginiaethau a chwblhau siartiau cydbwysedd hylifau yn gywir.

### Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd gan yr ysbyty brosesau sefydledig ar waith i reoli ac adolygu risgiau a chynnal iechyd a diogelwch yn yr ysbyty. Roedd hyn yn galluogi'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Ceir mynediad gwastad i adeilad yr ysbyty yn uniongyrchol o'r maes parcio a oedd yn cynnig mynediad priodol i bobl ag anawsterau symudedd. Roedd tir a mynedfa'r ysbyty wedi'u diogelu er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.

Roedd drysau clo a system intercom yn sicrhau bod yr ysbyty'n ddiogel rhag mynediad anawdurdodedig. Roedd gan bob claf ei hystafell wely ei hun y gallai fynd iddi dan oruchwyliaeth drwy gydol y dydd a oedd yn destun asesiadau risg unigol. Roedd yr ystafelloedd gwely yn cynnig safon uchel o breifatrwydd i'r cleifion.

Roedd materion cynnal a chadw'r ysbyty yn rhan o gyfarfodydd trosglwyddo dyddiol y staff. Roedd hyn yn golygu y byddai unrhyw waith cynnal a chadw yn cael ei drafod yn ystod y cyfarfod ac y byddai unrhyw faterion yn cael eu trafod mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom y tîm ystadau yn ymateb i waith cynnal a chadw ac yn ymgymryd â'r gwaith hwnnw er mwyn unioni problemau amgylcheddol.

Roedd y staff yn gwisgo larymau personol a radios y gallent eu defnyddio i alw am gymorth os oedd angen. Roedd manau galw am nyrs hefyd o amgylch y wardiau ac yn ystafelloedd gwely cleifion er mwyn i gleifion alw am gymorth os oedd angen.

Roedd dodrefn, gosodiadau a ffitiadau'r ysbyty yn briodol i'r grŵp cleifion. Roedd asesiadau risg diweddar ar gael mewn perthynas â phwyntiau clymu. Roedd y rhain yn nodi pwyntiau clymu posibl a pha gamau oedd wedi cael eu cymryd i ddileu neu reoli'r rhain.

Roedd archwiliadau wythnosol yn cael eu cynnal ar yr offer dadebru, ac roedd y staff wedi cofnodi pryd y digwyddodd y rhain er mwyn sicrhau bod yr offer yn bresennol ac o fewn y dyddiad.

Roedd y tymheredd yn y rhan fwyaf o ardaloedd yr ysbyty yn foddhaol, ond roedd yr ystafell dawel ar Ward Brenin yn oer iawn gan nad oedd y gwresogydd yn yr ystafell honno wedi cael ei droi ymlaen. Nodwyd gennym hefyd nad oedd y cloc yn yr ystafell dawel yn dangos yr amser cywir. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr amser cywir yn cael ei osod ar y cloc yn yr ystafell dawel.

Ar noson gyntaf ein harolygiad, gwelsom fod gwaed wedi staenio'r wal yn yr ystafell synhwyrdd ar Ward Brenin, ac nad oedd wedi cael ei lanhau. Mae hyn yn peri risg o heintio ac yn effeithio ar urddas y cleifion. Tynnwyd sylw'r nyrs â chyfrifoldeb at hyn, a weithredodd ar unwaith i unioni'r mater hwn.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr ystafell dawel ar Ward Brenin yn cael ei gwresogi'n ddigonol.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cloc yn yr ystafell dawel ar Ward Brenin yn dangos yr amser cywir.

#### Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd staff cadw tŷ dynodedig wedi'u cyflogi yn y gwasanaeth. Roedd holl ardaloedd cymunedol yr ysbyty yn lân ac yn daclus yr olwg. Roedd mynediad at gyfleusterau golchi a sychu dwylo ym mhob rhan o'r ysbyty. Roedd Cyfarpar Diogelu Personol ar gael i'r staff yn ôl y gofyn.

Roedd system gynhwysfawr o archwiliadau rheolaidd ar waith o ran rheoli heintiau. Roedd archwiliadau dyddiol yn cael eu cwblhau a'u ffeilio'n briodol. Cadarnhaodd y staff fod amserlenni glanhau ar waith er mwyn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd ac effeithiol yn yr ysbyty a'u bod yn ymwybodol o'u chyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau.

Ar noson gyntaf ein harolygiad, roedd yr ystafell glinigol ar Ward Ebbw yn eithaf anniben gan fod eitemau wedi cael eu gadael ar arwynebau yn hytrach na chael



eu gosod yn eu hardal storio ddynodedig. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr ardal glinigol yn cael ei chynnal a'i chadw i safon hylendid briodol a'i bod yn weithfan drefnus. Gwelsom hefyd fod glendid y ddwy gegin yn wael. Roedd platiau o wastraff bwyd wedi cael eu gadael ar arwynebau gwaith y gegin a'r ystafell fwyta ar Ward Brenin. Roedd y gegin i fyny'r grisiau ar Ward Ebbw hefyd yn eithaf anniben. Roedd y sinc yn frwnt ac roedd y bin wedi'i orlenwi ac nad oedd wedi cael ei wagio. Mae'n rhaid cadw'r ceginau mewn cyflwr gwell a gwneud ymdrechion i waredu bwyd gwastraff mewn modd amserol. Roedd yn gadarnhaol nodi y cafodd camau gweithredu eu cymryd yn ystod yr arolygiad i unioni'r materion hyn.

Roedd yr offer glanhau wedi'u storio a'u trefnu'n briodol. Roedd yn gadarnhaol nodi, yn dilyn ein harolygiad blaenorol, fod y darparwr cofrestredig yn defnyddio pennau mopiau tafladwy er mwyn lleihau'r risg o heintio a'r angen i olchi pennau'r mopiau.

Roedd trefniadau addas ar waith i waredu gwastraff clinigol. Roedd biniau priodol ar gael i waredu eitemau miniog meddygol ac nid oedd y rhain wedi'u gorlenwi. Nodwyd gennym nad oedd bin gwaredu deunyddiau misglwyf yn nhoiled un ward ger yr ystafell glinigol ar Ward Brenin. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod bin gwaredu deunyddiau misglwyf ar gael yn y toiled hwn at ddefnydd y cleifion.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr ardal glinigol yn lân ac yn drefnus.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y ceginau yn parhau i fod yn lân drwy gydol y sifftiau dydd a nos.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod biniau gwaredu deunyddiau misglwyf ar gael yn y toiled ger yr ystafell glinigol.

#### Maeth

Roedd y cleifion yn cael eu prydau bwyd yn yr ysbyty. Roedd gan yr ysbyty fwydlen tair wythnos gydag opsiynau ar gyfer cinio a swper, gan gynnwys opsiynau heb glwten. Roedd y cleifion yn gallu cael gafael ar fyrbrydau a lluniaeth hefyd ac roedd rhai cleifion ar ward Ebbw yn gallu defnyddio cyfleusterau i baratoi eu prydau eu hunain.

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion gofal a gwelsom fod siartiau monitro bob amser yn cael eu defnyddio lle roedd angen gwneud hynny, er mwyn sicrhau bod

y cleifion yn cael hylifau a maeth a oedd yn briodol i'w hanghenion. Gwnaethom edrych ar nodiadau dau glaf ac, mewn sampl o siartiau cydbwysedd hylifau (mewnbwn/allbwn), gwelsom anghysondebau lle roedd y siartiau wedi cael eu cwblhau'n wael neu lle roeddent yn anghyflawn. Nid oedd y siartiau a welwyd yn rhoi digon o wybodaeth i ddogfennu cymeriant y claf yn glir dros gyfnod o amser. Gwnaethom dynnu sylw cyfarwyddwr yr ysbyty at y mater hwn a rhoddodd y trafodaethau sicrwydd i ni fod yr unigolion dan sylw yn gallu cael gafael ar hylifau priodol. Adolygodd cyfarwyddwr yr ysbyty y system bresennol a dywedodd wrthym y byddai colofn arsylwi bellach yn cael ei chynnwys ar y siartiau arsylwi a byddai'r tîm rheoli yn gwneud rhagor o waith craffu er mwyn sicrhau bod y staff yn cofnodi gwybodaeth yn gywir. Roeddem yn fodlon y byddai'r system fonitro a gynigiwyd yn ddiweddar yn cynorthwyo'r staff ymhellach i gofnodi cymeriant hylifau'r cleifion yn yr ysbyty yn gywir.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod siartiau bwyd a hylif yn cael eu cofnodi'n llawn ac yn gywir.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel gyda chypyrddau ac oergelloedd meddyginiaeth dan glo. Gwelwyd tystiolaeth bod tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael ei wirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gweithgynhyrchydd.

Roedd archwiliadau clinigol ar waith yn yr ysbyty a oedd yn helpu i reoli meddyginiaeth mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Roedd y fferyllfa allanol yn rhoi mewnbwn wythnosol i'r ysbyty, gan gynnwys archwiliadau pellach a gynhaliwyd a oedd yn helpu'r broses o reoli, rhagnodi a rhoi meddyginiaeth. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen gwella rhai meysydd o ran rheoli meddyginiaeth.

Wrth fwrw golwg dros y llyfr meddyginiaeth Cyffuriau a All Gael eu Camddefnyddio (DLM) ar Ward Ebbw, nodwyd gennym fod gwall o ran cyfanswm y cyflenwad. Cofnododd y llyfr meddyginiaeth fod y cyfanswm ar gyfer y feddyginiaeth benodol honno yn 110, ond pan gawsom gip ar y cyflenwad, dim ond 108 a oedd ar gael. Tynnwyd sylw'r nyrs â chyfrifoldeb a'r rheolwr cofrestredig at hyn ar unwaith. Cynhaliodd y rheolwr cofrestredig ymchwiliad ar unwaith a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i AGIC ar ôl i ni gwblhau ein harolygiad. Roedd AGIC yn fodlon bod y cyffuriau wedi cael eu rhoi'n gywir a'u bod wedi cael eu cofnodi ar siart Cofnod Rhoi Meddyginiaeth y cleifion, ond bod

hyn wedi cael ei gofnodi a'i ddiwygio'n anghywir yn y llyfr DLM, gan wneud y cyfanswm yn anghywir. Roedd cyfarwyddwr yr ysbyty wedi rhoi sicrwydd i AGIC yr aethpwyd i'r afael â'r mater hwn ac y darperir hyfforddiant ychwanegol i'r staff.

Gwnaethom edrych ar sampl o siartiau meddyginiaeth a'r ystafelloedd clinigol ar y ddwy ward a gwelsom fod popeth yn gywir ac eithrio nifer bach o lofnodion tystion a oedd ar goll yn y llyfr Cyffuriau a Reolir a'r llyfr DLM ar Ward Brenin. Roedd chwe llofnod ar goll o'r llyfr Cyffuriau a Reolir rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2019, ac roedd tri llofnod ar goll yn ystod mis Tachwedd 2019 yn y llyfr DLM. Daethpwyd â hyn i sylw cyfarwyddwr yr ysbyty ac roeddem yn fodlon y byddai'r staff yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

Gwnaethom arsylwi ar y staff yn trafod meddyginiaeth â'r cleifion a gwelsom fod y trafodaethau hyn â'r cleifion wedi cael eu dogfennu a'u cofnodi yng nghynlluniau gofal a thriniaeth y cleifion.

Mae'r ysbyty yn defnyddio system ar gyfer archebu meddyginiaeth a gwelsom fod cyflenwad sylweddol ar gael i'w ddefnyddio mewn argyfwng. Mae'r fferyllfa allanol yn ymweld bob wythnos i oruchwyllo unrhyw ddefnydd o feddyginiaeth ac mae'r ysbyty yn cwblhau adnodd archwilio'r fferyllfa er mwyn cefnogi ymarfer diogel.

Roedd y fersiwn ddiweddaraf o Lyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain ar gael i'r staff pe bai angen iddynt gadarnhau gwybodaeth am unrhyw gyffuriau. Roedd y polisi rhoi cyffuriau ar gael i'r staff yn y ddwy ystafell glinigol hefyd.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod Cyffuriau a All Gael eu Camddefnyddio yn cael eu cofnodi'n gywir yn y llyfr DLM.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod Cyffuriau a Reolir a Chyffuriau a All Gael eu Camddefnyddio yn cael eu llofnodi'n gywir gan y staff bob amser.

#### Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod yr ysbyty'n diogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn. Yn ystod ein harolygiad, codwyd mater yn ymwneud â diogelu yn ystod cyfarfod amlddisgyblaethol. Yn ystod y drafodaeth hon, gwelsom fod y tîm yn dangos gwybodaeth am yr hyn a oedd yn cyfrif fel atgyfeiriad diogelu, a hynny mewn ffordd glir. Roedd yn amlwg hefyd fod y tîm rheoli yn gweithio'n galed i feithrin a chynnal cydberthynas waith dda â

phartneriaid amlasiantaeth. Mae'r dull cydweithredol hwn yn allweddol er mwyn sicrhau prosesau diogelu effeithiol ac roedd yn dangos bod yr ysbyty yn rhoi pwyslais cryf ar ddiogelu eu cleifion.

### **Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig**

Roedd archwiliadau wythnosol yn cael eu cynnal ar yr offer dadebru, ac roedd y staff yn cofnodi pryd y cynhaliwyd y rhain er mwyn sicrhau bod yr offer ar gael ac o fewn ei ddyddiad defnyddio. Roedd detholiad cynhwysfawr o gyflenwadau cymorth cyntaf yn yr ardal glinigol ar Ward Brenin a oedd ar gael yn hawdd i'r staff.

Roedd nifer o dorwyr clymau ar gael ar y ddwy ward rhag ofn bod argyfwng. Yn ystod trafodaethau â'r staff, roedd yn amlwg eu bod yn ymwybodol o leoliadau torwyr clymau. Roedd archwiliadau diogelwch cyfredol ar waith, gan gynnwys asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu.

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Nodwyd bod strategaethau ar waith ar gyfer rheoli ymddygiad heriol er mwyn hybu diogelwch a llesiant y cleifion. Soniwyd bod technegau ataliol yn cael eu defnyddio ac y byddai'r staff, lle y bo angen, yn arsylwi ar gleifion yn amlach os oedd eu hymddygiad yn peri pryder. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod cleifion yn cael eu rhwystro'n gorfforol ond dim ond pan fetho popeth arall. Roedd podiau diogelwch<sup>3</sup> ar gael y gallai'r staff eu defnyddio er mwyn eu cynorthwyo i ymyrryd yn gorfforol i rwystro'r cleifion. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff yn defnyddio techneg atal corfforol mewn modd proffesiynol, pwylllog a sensitif. Roedd y broses o reoli ymddygiadau'r cleifion yn cael ei hadlewyrchu yn eu cynlluniau gofal a'u proffil rheoli risg, ynghyd â hyfforddiant y staff i ddefnyddio sgiliau er mwyn rheoli sefyllfaoedd anodd a'u tawelu. Roedd adroddiadau yn cael eu cyflwyno ar unrhyw achos o atal corfforol yn ystod y 24 awr flaenorol ac roeddent yn cael eu trafod yn y cyfarfod dyddiol ac yn cael eu hadolygu drwy strwythur llywodraethu clinigol yr ysbyty.

---

<sup>3</sup> Nod y Pod Diogelwch yw gwella diogelwch ymyriadau corfforol. Darn o ddodrefn mawr, meddal a chefnogol yw hwn fel arfer sy'n debyg i "fag ffa" y gellir ei ddefnyddio er mwyn gosod claf arno i gefnogi ymyriadau corfforol.

Yn gyffredinol, gwelsom fod systemau a threfniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion. Fodd bynnag, fel y nodir yn yr adroddiad, mae angen i'r darparwr cofrestredig fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad. Ceir manylion y rhain yn Atodiad B.

### **Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Roedd cysylltiadau â mentrau cymunedol a'r ganolfan hamdden leol yn sicrhau bod y cleifion yn cael mynediad at gyrsiau a gweithgareddau, gan alluogi'r cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon yn ystod eu hamser yn yr ysbyty a phan fyddant ar absenoldeb heb oruchwyliaeth hefyd.

Fel y nodwyd eisoes yn adran diogelu'r adroddiad hwn, roedd yn gadarnhaol iawn gweld bod tîm yr ysbyty yn ymdrechu i feithrin cydberthynas waith gadarn â'r ysbyty cyffredinol lleol a'r tîm plismona cymunedol. Dywedwyd wrthym am fentrau a oedd yn ymwneud â'r tîm plismona cymunedol a oedd yn mynd i'r ysbyty er mwyn cyfarfod a siarad â'r cleifion.

Dywedodd rheolwr yr ysbyty wrthym hefyd am gynlluniau yn y dyfodol i feithrin cysylltiadau â cholegau a phrifysgolion lleol mewn ymgais i annog nyrsys dan hyfforddiant i gael gwaith yn yr ysbyty.

### **Rheoli gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Roedd systemau cofnodion cyfrifiadurol y cleifion wedi'u datblygu'n dda ac yn rhoi gwybodaeth o ansawdd uchel am ofal cleifion unigol. Roedd y system yn gynhwysfawr ac yn hawdd ei defnyddio.

Roedd systemau electronig da ar waith ar gyfer cofnodi digwyddiadau, archwiliadau clinigol a llywodraethu, adnoddau dynol a systemau eraill yr ysbyty, a oedd yn helpu i reoli a chynnal yr ysbyty. Roedd hyn yn welliant ers ein harolygiad diwethaf.

Gwnaethom arsylwi ar y system olrhain a oedd yn cael ei defnyddio i fonitro gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a'i harchwilio, a gwelsom dystiolaeth drwy'r system hon fod geirdaon yn cael eu gwirio cyn cyflogi staff. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod disgwyl i gyfleuster cofnodi a monitro adnoddau dynol newydd gael ei roi ar waith a fydd yn casglu ac yn cofnodi'r holl ddata yn electronig.

### **Rheoli cofnodion**

Roedd cofnodion y cleifion yn electronig ac roedd cyfrineiriau yn cael eu defnyddio i atal mynediad anawdurdodedig ac achosion o dor-cyfrinachedd.

Gwnaethom edrych dros sampl o gofnodion cleifion o bob rhan o'r ysbyty. Roedd yn amlwg bod staff o'r timau amlddisgyblaethol yn ysgrifennu cofnodion manwl a rheolaidd a oedd yn darparu dogfen fyw am y claf a'i gofal.

Roeddem yn hoffi 'This is me Care Passport' yn fawr, a oedd yn cynnwys gwybodaeth allweddol megis pethau y mae'n rhaid i chi wybod amdanaf er mwyn fy nghadw'n ddiogel, pethau sy'n bwysig a hoff a chas bethau'r claf. Roedd hyn yn dangos bod yr ysbyty yn gwneud yn siŵr bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r wybodaeth a oedd yn bwysig i'r claf.

### **Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl**

Gwnaethom fwrw golwg dros ddogfennau cadw statudol tri chlaf o'r ddwy ward a gwnaethom siarad hefyd â'r cleifion er mwyn sicrhau eu bod wedi cael gwybod am eu hawliau a'u hawliadau.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am strwythur tîm gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl, a oedd wedi cael ei ddiwygio ers ein harolygiad blaenorol. Gwnaeth y staff ganmol y cyfleoedd hyfforddiant, yn ogystal â'r cymorth ar gyfer datblygu'r systemau tîm er mwyn rheoli'r broses o roi'r Ddeddf ar waith.

Ers ein harolygiad diwethaf, roedd yr ysbyty wedi penodi dirprwy i ymgymryd â dyletswyddau gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn ystod unrhyw absenoldeb gan weinyddwr llawn amser y Ddeddf Iechyd Meddwl; roedd yn braf gweld bod yr unigolyn hwn eisoes yn gwybod am y Ddeddf. Roedd yn braf nodi hefyd fod amgylchedd gwaith gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn fwy addas ar gyfer monitro cymhlethdodau'r Ddeddf. Nodwyd gennym hefyd fod gweinyddwr llawn amser Ddeddf Iechyd Meddwl yr ysbyty bellach yn cymryd rhan yn Fforwm Ddeddf Iechyd Meddwl Cymru Gyfan, sef rhwydwaith o weinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl a chynrychiolwyr o AGIC. Roedd yr ysbyty hefyd wedi cefnogi gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl i gwblhau hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl. Fodd bynnag, er mwyn adeiladu ar y gwelliannau a wnaed eisoes, dylai gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl ystyried gwella'r lefelau o gyfathrebu â thimau allanol, er enghraifft er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael eu Tribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl a gwrandawiadau rheolwyr yn unol â'r amserlenni a ganiateir gan y Ddeddf.

## Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Adolygwyd cynlluniau gofal pum claf i gyd.

Gwnaethom adolygu sampl o bum ffeil gofal a gwelsom eu bod yn cael eu cynnal i safon dda ar y cyfan. Roedd y cofnodion yn gynhwysfawr, ac roedd adnoddau asesu cydnabyddedig yn cael eu defnyddio i fonitro iechyd meddyliol a chorfforol. Roedd cofnodion y cleifion a welsom yn ffeiliau electronig ac yn ffeiliau papur a oedd yn drefnus iawn ac yn hawdd eu darllen.

Roedd asesiadau o anghenion ac asesiadau risg cynhwysfawr yn cael eu cwblhau yn ystod cyfnod derbyn y claf, a oedd yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r cynllun gofal a'r strategaethau rheoli risg a oedd yn cael eu rhoi ar waith ar y wardiau. Roedd tystiolaeth glir o waith amlddisgyblaethol yn y cynlluniau gofal a oedd yn adlewyrchu parthau Mesur Iechyd Meddwl (Cymru).

Roedd asesiadau Rhwydwaith Ymchwil Risg Gymhwysol Cymru (WARRN) yn darparu crynodebau da o ffactorau personol a hanesyddol a oedd yn gysylltiedig â risg. Roedd cynlluniau rheoli risg hefyd yn cael eu personoli ac yn nodi sbardunau posibl i'r cleifion, gan alluogi'r staff i nodi newidiadau yn eu hymddygiad. Roedd yn gadarnhaol iawn gweld bod y ffeiliau gofal yn dangos yn glir fod y cleifion yn rhan o drafodaethau gofal a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn cael eu llofnodi gan y claf.

Gwelsom fod y staff yn cwblhau dogfennaeth gofal ac asesiadau risg yn llawn. Ar y cyfan, roedd y ddogfennaeth nyrsio a welwyd yn dda iawn ac roedd asesiadau corfforol wedi'u cwblhau'n dda. Roedd yn galonogol gweld bod tîm yr ysbyty wedi gwella a datblygu cynlluniau gofal y cleifion yn sylweddol ers ein harolygiad diwethaf.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*

Roedd gan Ysbyty Hillview brosesau a threfniadau archwilio effeithiol i helpu'r staff i gynnal gofal diogel ac effeithiol.

Roedd tîm o staff ymroddedig yr oedd yn ymddangos eu bod yn deall anghenion y cleifion yn yr ysbyty yn dda iawn yn ôl pob golwg.

Roedd aelodau o staff yn cael eu recriwtio mewn proses agored a theg ac roedd gwiriadau cyflogaeth priodol yn cael eu cynnal cyn cyflogaeth ac yn rheolaidd yn ystod cyflogaeth.

Fodd bynnag, mae angen gwella'r broses o gadw cofnodion cywir o rota'r staff.

## Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion. Roedd y trefniadau hynny'n cael eu cofnodi fel y gellid eu hadolygu.

Roedd yr Uwch-dîm Rheoli yn cynnwys Cyfarwyddwr Ysbyty, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol, Cyfarwyddwr Meddygol, Rheolwr Gwasanaethau Clinigol a Phenaethiaid Seicoleg, Therapi Galwedigaethol a Gwaith Cymdeithasol. Ers ein harolygiad diwethaf, bu nifer o newidiadau i'r uwch-dîm rheoli, ond roedd strwythur ysbyty sefydledig ar waith ac, wrth siarad ag unigolion, roedd yn glir bod pawb yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau o dan y strwythur llywodraethu. Roedd gan yr uwch-reolwyr hyn gyfrifoldebau penodol



am sicrhau bod y rhaglen lywodraethu yn parhau i fod yn flaenllaw wrth ddarparu gwasanaethau.

### **Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**

Roedd polisi cwynion a gweithdrefn gwyno ar waith. Roedd y polisi'n cynnig strwythur i ymdrin â'r holl gwynion gan y cleifion ar gyfer yr ysbyty.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion cwynion yn ystod yr arolygiad i sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn cydymffurfio â'r polisi cwynion. Roedd cwynion yn cael eu rheoli'n bennaf drwy ddull electronig o gofnodi. Roedd y broses gwyno a champau gweithredu cysylltiedig yn cael eu goruchwyllo gan reolwr yr ysbyty.

Roedd gan yr ysbyty gymhorthfa gwyno a oedd yn cael ei chynnal bob wythnos. Nod y gymhorthfa oedd cynnig cyngor ac arweiniad i'r staff ynghylch sut i reoli ymchwiliadau i gwynion ac ymdrin â nhw. Roedd y fforwm hwn hefyd yn rhoi data priodol i'r staff nodi tueddiadau a phatrymau ymddygiad. Roedd hyn yn dangos bod yr ysbyty yn ymrwymedig i hyfforddi, addysgu a datblygu'r staff, er mwyn sicrhau bod cwynion yn cael eu trafod mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, gan olygu nad oedd y cleifion a'u teuluoedd yn profi unrhyw oedi diangen cyn i gwynion gael eu datrys.

Roedd hierarchaeth o lofnodi adroddiadau ar ddigwyddiadau a oedd yn sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu mewn modd amserol. Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu paratoi a'u hadolygu'n rheolaidd ar lefel yr ysbyty a'r sefydliad fel y gellid eu hadolygu a'u dadansoddi.

Roedd trefniadau ar waith i ledaenu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau yn yr ysbyty i'r staff.

### **Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**

Gwnaethom adolygu'r ystadegau o ran hyfforddiant gorfodol a goruchwyliaeth glinigol ar gyfer y staff yn yr ysbyty a gwelsom fod cyfraddau cwblhau yn uchel. Roedd rhaglen hyfforddi fel bod y staff yn cael diweddariadau amserol. Roedd y cofnodion electronig yn rhoi manylion cyfraddau cwblhau cyrsiau i'r uwch-reolwyr, ynghyd â manylion cydymffurfio aelodau unigol o'r staff. Drwy adolygu cofnodion hyfforddiant y staff, nodwyd gennym y byddai rhan o hyfforddiant y staff, sef hyfforddiant codi a chario a hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl, yn dod i ben ar ddiwedd mis Rhagfyr 2019. Roedd yn galonogol gweld bod y staff gweinyddol eisoes wedi nodi'r mater hwn a'u bod wrthi'n trefnu'r hyfforddiant hwn.

## Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl a hyfforddiant Codi a Chario cyn y dyddiad dod i ben.

## Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Er bod nifer o swyddi gwag ar gyfer nyrsys cofrestredig, roedd tystiolaeth bod yr ysbyty yn ceisio eu llenwi. Ar adeg yr arolygiad, roedd saith swydd wag ar gyfer nyrsys cofrestredig, yr oedd tair ohonynt yn cael eu cyflawni gan nyrsys cofrestredig a oedd ar gontractau asiantaeth hirdymor â'r ysbyty ar hyn o bryd. Roedd prinder cynorthwyyr gofal iechyd hefyd ac roedd y broses recriwtio yn mynd rhagddi ar adeg ein harolygiad. Roedd seicolegydd clinigol newydd wedi cael ei benodi a fyddai'n dechrau gweithio yn y swydd ym mis Ionawr 2020.

Pan nad oes digon o staff i gyflawni'r rotâu, oherwydd swyddi gwag neu absenoldebau, byddai'r ysbyty yn defnyddio staff asiantaeth i lenwi unrhyw fylchau. Yn ystod noson gyntaf ein harolygiad, nid oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn siŵr am nifer y staff ar gyfer y wardiau a nododd y staff fod achlysuron pan roedd y lefelau staffio yn rhy isel. Yn ogystal, tynnodd claf y gwnaethom siarad ag ef sylw at rai pryderon ynghylch lefelau staffio a oedd yn ymwneud yn benodol â chyflawni arsylwadau manwl a rheolaidd.

Gan fod y materion hyn wedi cael eu crybwyll wrth y tîm arolygu, ac oherwydd pryderon arolygiad blaenorol ynghylch nifer y staff, gwnaethom adolygu rotâu'r staff yn fanwl. Roedd rotâu'r staff a ddarparwyd yn wreiddiol yn dangos nifer o fylchau lle nad oedd digon o nyrsys cofrestredig yn gweithio i fodloni amodau cofrestru'r ysbyty. Gwnaethom dynnu sylw rheolwr y ward at hyn ar unwaith a gwnaethom ofyn am dystiolaeth ac esboniad ynghylch y bylchau hyn a nodwyd gennym. Roedd rheolwr yr ysbyty yn gallu cyflwyno rhagor o dystiolaeth a oedd yn dangos, pan wnaethom edrych arni, fod nifer priodol o staff ar gael ar gyfer pob un ond un o'r dyddiadau y gwnaethom dynnu sylw atynt a derbyniwyd amgylchiadau lliniaru ar gyfer yr un sifft lle roedd bylchau. Wrth fwrw golwg dros gofnodion rotâu'r staff, daeth yn amlwg nad oedd ychwanegiadau at rotâu'r staff yn cael eu hadlewyrchu'n glir bob amser ar system rotâu'r staff. Roedd hyn yn esbonio'r anghysondebau yn y cofnodion cychwynol y gwnaethom y gwnaethom fwrw golwg drostynt. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion rotâu'r staff yn cael eu rheoli'n drylwyr a bod unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau i'r lefelau staffio yn cael eu cofnodi'n gywir. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig hefyd sicrhau bod y staff yn teimlo eu bod yn cael cymorth digonol i

gyflawni eu rolau, a bod digon o staff ar gael i gyflenwi yn ystod amseroedd arsylwi.

Fel y nodwyd yn adran rheoli gwybodaeth yr adroddiad hwn, roedd yn amlwg bod systemau ar waith er mwyn sicrhau bod y broses recriwtio yn un agored a theg. Cyn eu cyflogi, roedd geirdaon staff yn cael eu derbyn, roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal ac roedd cymwysterau proffesiynol yn cael eu cadarnhau. Felly, cawsom ein sicrhau bod yr aelodau o'r staff yn cael eu recriwtio mewn proses agored a theg.

Roedd staff newydd eu penodi yn cael eu sefydlu am gyfnod o amser o dan oruchwyliaeth y penaethiaid gofal. Dangosodd y staff dystiolaeth ddogfennol i ni a gwnaethant esbonio'r systemau sefydlu a oedd ar waith yn yr ysbyty, a rhoddwyd sicrwydd i ni fod gwelliannau wedi cael eu gwneud yn y maes hwn hefyd.

Roedd gan yr ysbyty bolisi clir ar waith er mwyn i'r staff allu mynegi pryderon ac roedd hwn yn cael ei arddangos yn yr ystafell staff. Roedd cymorth iechyd galwedigaethol ar gael i'r staff hefyd.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion rotâu'r staff yn cael eu rheoli'n drylwyr a bod unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau i'r lefelau staffio yn cael eu cofnodi'n gywir.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod lefelau staffio digonol i gynnal amgylchedd diogel bob amser, gan gynnwys defnyddio staff ychwanegol i gyflenwi yn ystod amseroedd arsylwi.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn cael eu cynnal yn ddirybudd fel arfer. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [gwasanaethau iechyd meddwl](#) a [gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

<b>Pryderon uniongyrchol a nodwyd</b>	<b>Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei ddatrys</b>
Ar noson gyntaf ein harolygiad, gwelsom fod gwaed wedi staenio'r wal yn yr ystafell synhwyrdd ar Ward Brenin, ac nad oedd wedi cael ei lanhau.	Mae hyn yn peri risg o heintio ac yn effeithio ar urddas y cleifion	Tynnwyd sylw'r nyrs â chyfrifoldeb at hyn ar unwaith	Cafodd yr ardal ei glanhau ar unwaith.

## Atodiad B – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Ysbyty Hillview

**Ward/uned(au):** Wardiau Brenin ac Ebbw

**Dyddiad arolygu:** 2 – 4 Rhagfyr 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos ar y ddwy ward sy'n cynnwys gwybodaeth statudol, gwybodaeth am y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r gwasanaethau eirioli a ddarperir, sut i godi cwyn, a gwybodaeth am Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.	4.2 Gwybodaeth i gleifion	Mae hysbysfyrddau wedi cael eu gosod ar wardiau Ebbw, Brenin a Tŷ Seren er mwyn dangos gwybodaeth statudol, gwybodaeth am y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r gwasanaethau Eirioli a ddarperir. Mae gwybodaeth ynghylch sut i wneud cwyn a sut i gysylltu ag AGIC yn cael ei harddangos hefyd	Andrew Balmforth a'r Tîm Cynnal a Chadw	Erbyn diwedd dydd Gwener 17 Ionawr 2020 (cwblhawyd y Cam Gweithredu)

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r canllaw croeso i Hillview sy'n cynnwys gwybodaeth i gleifion er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn gywir.</p>	<p>9. Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion</p>	<p>Byddwn yn adolygu'r canllaw i gleifion ar gyfer Hillview er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn gywir. Yn dilyn Fforwm Teuluoedd a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2020, pan ofynnodd rhieni am i wybodaeth gael ei hychwanegu at y canllaw, gwneir y diwygiadau hyn hefyd. Bydd y fersiwn newydd ar gael ar wefan ein cwmni hefyd</p>	<p>Dr. Lisa Thomas-Gray – Pennaeth y Tîm Amlddisgyblaethol</p>	<p>Dydd Gwener 31 Ionawr 2020</p>
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr ystafell dawel ar Ward Brenin yn cael ei gwresogi'n ddigonol.</p>	<p>22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch</p>	<p>Cafodd y broblem o ran gwresogi'r ystafell dawel ar Ward Brenin ei datrys yn ystod yr arolygiad. Defnyddir yr ystafell er mwyn cefnogi pobl ifanc na allant reoli eu hymatebion emosiynol. Ar adegau, gall hyn olygu bod yn rhaid defnyddio technegau rhwystro diogel. Mae'r bobl ifanc wedi dweud bod ystafell oerach yn fwy cyfforddus yn ystod y cyfnodau hyn. Bydd y gwasanaeth yn parhau i fonitro tymheredd yr ystafell hon ac ystyried adborth y bobl ifanc.</p>	<p>Tîm Cynnal a Chadw a Rheolwr y Ward</p>	<p>Dydd Gwener 24 Ionawr 2020</p>



Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Rydym yn ystyried newid enw'r Ystafell Dawel i 'Ystafell Lonyddu'		
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cloc yn yr ystafell dawel ar Ward Brenin yn dangos yr amser cywir.	12. Yr amgylchedd	Rydym wedi dod o hyd i glocio digidol, trydan a gaiff eu gosod ar Ward Brenin. Mae'r rhain wedi cael eu harchebu	Steven Dyton-Thomas – Cyfarwyddwr Cyllid	Dydd Gwener 31 Ionawr 2020
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr ardal glinigol yn lân ac yn drefnus.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae'r broses o archwilio pob ystafell glinigol yn ddyddiol wedi cael ei rhoi ar waith. Caiff y rhain eu cynnal cyn diwedd sifftiau a bydd Rheolwyr y Wardiau yn eu monitro. Rydym hefyd yn ystyried creu ardal clinig iechyd corfforol a fyddai'n lleihau nifer yr eitemau sy'n cael eu storio yn yr ystafell glinigol	Rheolwyr Wardiau Brenin ac Ebbw	Dydd Gwener 31 Ionawr 2020
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y ceginau yn parhau i fod yn lân yn ystod y sifftiau dydd a nos.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Bydd rheolwyr y wardiau a chydgyssylltwyr uned yn monitro'r ceginau er mwyn sicrhau bod yr holl fwyd a phlatiau yn cael eu clirio ar ôl adegau prydu bwyd.	Rheolwyr Wardiau Brenin ac Ebbw/ Cydgyssylltwyr Uned	Dydd Gwener 17 Ionawr 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod biniau gwaredu deunyddiau misglwyf ar gael yn y toiled ger yr ystafell glinigol.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Rydym wedi cysylltu â'n darparwr biniau gwaredu deunyddiau misglwyf i gyflenwi bin ychwanegol ar gyfer y toiled ger yr ystafell glinigol ar Ward Brenin. Roedd hyn wedi cael ei symud ar ôl i unigolyn ifanc dorri'r bin a defnyddio'r rhannau at ddibenion hunan-niweidio. Ar ôl ei ailgyflwyno, bydd y bin newydd yn destun asesiad risg ac yn cael ei fonitro bob dydd.	Neil Ormiston – Rheolwr Ward Brenin	Dydd Gwener 31 Ionawr 2020
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod siartiau bwyd a hylif yn cael eu cofnodi'n llawn ac yn gywir.	14. Maeth	Mae staff y wardiau wedi cael eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau i gwblhau siartiau bwyd a hylif. Rydym hefyd wedi rhoi proses ar waith i gadarnhau eu bod wedi cael eu cwblhau drwy gydol y dydd ac ar ddiwedd pob sifft. Bydd yr uwch-weithwyr cymorth a'r nyrs â chyfrifoldeb yn cynnal y broses hon	Pob un o'r gweithwyr cymorth, wedi'u monitro gan y Nyrs â Chyfrifoldeb a Rheolwyr y Wardiau	Dydd Gwener 17 Ionawr 2020
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod Cyffuriau a All Gael eu Camdefnyddio yn cael eu cofnodi'n gywir yn y llyfr DLM.	15. Rheoli meddyginiaethau	Mae dogfen Cymhwysedd i Reoli Meddyginiaethau wedi cael ei hanfon at bob un o'r nyrsys yn Ysbyty Hillview. Byddant yn ei chwblhau a'i dychwelyd at	Andrew Balmforth – Arweinydd Clinigol	Dydd Gwener 24 Ionawr 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>yr Arweinydd Clinigol erbyn diwedd dydd Gwener 17 Ionawr 2020</p> <p>Rydym yn rhoi system ar waith lle bydd y cyflenwad o gyffuriau a reolir yn cael ei gysoni rhwng pob sifft. Bydd cydgysylltwyr yr uned yn gwirio'r broses hon bedair gwaith bob wythnos er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Bydd Fferyllfa Ashtons hefyd yn ymweld â Hillview er mwyn archwilio'r feddyginiaeth ar ddydd Llun bob wythnos. Bydd rheolwyr y wardiau yn cynnal archwiliad clinigol llawn bob mis.</p> <p>Bydd Ashtons yn darparu hyfforddiant ar gyffuriau a reolir gyda nyrsys cymwysedig er mwyn sicrhau cymhwysedd yn y maes hwn.</p>		
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn llofnodi'n gywir ar gyfer Cyffuriau a Reolir a Chyffuriau a All Gael eu Camddefnyddio bob amser.</p>	<p>15. Rheoli meddyginiaethau</p>	<p>Mae dogfen Cymhwysedd i Reoli Meddyginiaethau wedi cael ei hanfon at bob un o'r nyrsys yn Ysbyty Hillview. Byddant yn ei chwblhau a'i dychwelyd at yr Arweinydd Clinigol erbyn diwedd dydd Gwener 17 Ionawr 2020</p>	<p>Andrew Balmforth – Arweinydd Clinigol</p>	<p>Dydd Gwener 24 Ionawr 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Rydym yn rhoi system ar waith lle bydd y cyflenwad o gyffuriau a reolir yn cael ei gysoni rhwng pob sifft. Bydd cydgysylltwyr yr uned yn gwirio'r broses hon bedair gwaith bob wythnos er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Bydd Fferyllfa Ashtons hefyd yn ymweld â Hillview er mwyn archwilio'r feddyginiaeth ar ddydd Llun bob wythnos. Bydd rheolwyr y wardiau yn cynnal archwiliad clinigol llawn bob mis.</p> <p>Bydd Ashtons yn darparu hyfforddiant ar gyffuriau a reolir gyda nyrsys cymwysedig er mwyn sicrhau cymhwysedd yn y maes hwn.</p>		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl a hyfforddiant Codi a Chario cyn y dyddiad dod i ben.</p>	<p>25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol</p>	<p>Rydym wedi datblygu matrices hyfforddiant staff i olrhain hyfforddiant ein cyflogeion, sy'n cynnwys dyddiadau cwblhau hyfforddiant. Mae'r Adran Adnoddau Dynol yn rheoli'r matrices hyfforddiant ac mae data yn cael eu cofnodi'n ddyddiol ac yn wythnosol, sy'n</p>	<p>Leeann Morris – Rheolwr Adnoddau Dynol</p>	<p>Dydd Gwener 17 Ionawr 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ein galluogi i roi gwybod i'r staff pan fydd angen iddynt gael hyfforddiant gloywi, hyfforddiant pellach a/neu hyfforddiant mwy cyfredol. Rydym hefyd wedi cyflwyno system rheoli personél newydd ac rydym wrthi'n ceisio cadarnhau a fydd y rhaglen hon yn ein helpu i reoli a nodi anghenion hyfforddiant ein staff.		
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion rotâu yn cael eu rheoli'n drylwyr a bod unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau i'r lefelau staffio yn cael eu cofnodi'n gywir.	24. Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu	Mae'r ddau reolwr ward yn cyfarfod â'r Cydgysylltydd Banc bob bore a phob prynhawn er mwyn sicrhau bod y rota yn gywir a'i bod yn adlewyrchu nifer y staff sydd eu hangen. Mae'r rota yn cael ei chyhoeddi ac mae'r Rheolwr Ar Ddyletswydd yn cyflwyno copi caled erbyn 5pm bob dydd er mwyn ei alluogi i gael gafael ar wybodaeth staffio yn hawdd pan na fydd yn yr ysbyty	Rheolwyr Wardiau	y Dydd Gwener 17 Ionawr 2020
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod lefelau staffio digonol i gynnal amgylchedd diogel bob amser, gan gynnwys defnyddio staff	24. Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu	Mae'r broses o recriwtio Gweithwyr Gofal lechyd a Nyrsys lechyd Meddwl Cofrestredig yn mynd rhagddi. Mae'r hysbysebion "ar agor" ac maent ar gael ar ein gwefan ein hunain, gydag	Leeann Morris – Rheolwr Adnoddau Dynol	Dydd Gwener 17 Ionawr 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>ychwanegol i gyflenwi yn ystod amseroedd arsylwi.</p>		<p>asiantaethau recriwtio, ac ar wefan swyddi Indeed, sy'n denu llawer o ymgeiswyr. Rydym hefyd yn hysbysebu swyddi allweddol/uwch-swyddi ar wefannau penodol, e.e. gwefan swyddi'r GIG ac asiantaethau recriwtio penodol. Mae'r broses drylwyr o ddethol darpar gyflogeion, creu rhestrau byr a chynnal cyfweiliadau yn un barhaus, gyda'r nod o ddenu ymgeiswyr o safon uchel.</p> <p>Rydym yn rheoli ein habsenoldeb salwch ac yn datblygu polisi a gweithdrefn absenoldeb, er mwyn sicrhau ein bod yn cefnogi'r staff yn ôl yr angen, yn ogystal â lleihau ein lefelau absenoldeb salwch a galluogi cyflogeion i ddychwelyd i'r gwaith.</p> <p>Gan fod cadw staff yn bwysig i ni, rydym yn cynnal arolygon boddhad cyflogeion a chyn bo hir, byddwn yn cynnal arolwg ymgysylltu â chyflogeion a fydd yn ein helpu i nodi meysydd y gall fod angen i ni</p>		

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ganolbwyntio arnynt a'u gwella. Bydd hyn yn ein helpu i gynnal amgylchedd gwaith sy'n helpu i gadw aelodau presennol o'r staff gyda'n sefydliad.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau): ERIC PWAMANG**

**Teitl swydd: Prif Swyddog Gweithredol**

**Dyddiad: 17 Ionawr 2020**